WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Arolygiad Arbennig

# Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

**Blwyddyn archwilio:** 2013-14

**Cyhoeddwyd:** Ionawr 2014

**Cyfeirnod y ddogfen:** 685A2013

# Statws yr adroddiad

Paratowyd a chyhoeddwyd yr adroddiad hwn yn unol ag adran 22 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 mewn perthynas ag arolygiad arbennig o dan adran 21 y Mesur hwnnw.

Nid yw Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) na PricewaterhouseCoopers LLP, neu lle y bo'n gymwys, yr Archwilydd Penodedig yn atebol i unrhyw aelod, swyddog, na chyflogai arall i'r Cyngor yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2014

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Rhaid i chi ei ailddefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

Cafodd Archwilydd Cyffredinol Cymru gymorth gan Anthony Barrett, Alan Morris, Non Jenkins, Jackie Joyce a PricewaterhouseCoopers LLP i gynnal yr arolygiad hwn a chynhyrchu'r adroddiad.

# Cynnwys

Mae cyfuniad o wendidau wedi arwain yn anochel at fethiannau llywodraethu yn y Cyngor ac er ei fod yn gwneud cynnydd calonogol ar wella ei drefniadau llywodraethu, bydd hyn yn cymryd amser i ymwreiddio, sy'n golygu ei bod yn rhy fuan i gasglu a yw'r gwelliannau hyn yn gynaliadwy.


| | |
|---|---|
| Adroddiad cryno | |
| Crynodeb | 5 |
| Y ffordd ymlaen | 8 |
| Datganiad gan yr Archwilydd Cyffredinol | 8 |
| Argymhellion | 8 |
| Adroddiad manwl | |
| Arweiniodd cyflymdra newid a chyfuniad o nifer o wendidau yn anochel at fethiannau llywodraethu | 10 |
| Newidiodd yr esiampl a ddangosir ar frig y sefydliad gyda phenodiad y Prif Weithredwr newydd ym mis Medi 2010 | 10 |
| Ni chafodd trefniadau llywodraethu allweddol eu hadolygu na'u newid i adlewyrchu'r newid yn yr esiampl a ddangosir ar y brig a'r cynnydd yng nghyflymdra gweithredu | 11 |
| Ni roddwyd ystyriaeth i wrthdaro buddiannau posibl | 11 |
| Nid oedd rolau statudol y Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro yn cael digon o broffil na dylanwad o fewn y strwythur rheoli newydd | 12 |
| Cafwyd methiannau llywodraethu mewn perthynas â phenderfyniadau penodol | 13 |
| Mae'r Cyngor bellach yn gwella ei drefniadau llywodraethu | 15 |
| Mae'r Bwrdd Rhaglen Gwella Llywodraethu yn llwyddo i lywio cynllun gweithredu'r Cyngor i wella ei drefniadau llywodraethu | 15 |
| Mae'r Cyngor wedi dechrau mynd i'r afael â'i drefniadau rheoli risg ond er bod strategaeth newydd wedi'i lansio, mae rhai gwendidau'n parhau | 16 |
| Nid yw diweddariad y Cyngor o'i bolisi chwythu'r chwiban yn mynd i'r afael â'r newidiadau deddfwriaethol diweddaraf | 17 |

| | |
|---|---|
| Nid yw prosesau Archwilio Mewnol yn cael eu defnyddio'n effeithiol i ddarparu sicrwydd ynglŷn â'r prif risgiau sy'n wynebu'r Cyngor | 18 |
| Mae'r Cyngor wedi bod yn araf yn rhoi camau ar waith i wella'r swyddogaeth Adnoddau Dynol a datblygu ei drefniadau cynllunio'r gweithlu | 20 |
| Mae'r Cyngor yn cydnabod bod gwendidau'n parhau yn ei drefniadau rheoli perfformiad | 21 |
| Mae yna rai gwendidau yn y modd y mae'r Cyngor yn defnyddio'i swyddogaeth gaffael | 22 |
| Ar y cyfan, mae'r berthynas rhwng swyddogion ac aelodau'n dda er nad yw gwaith craffu'n gyson effeithiol | 22 |
| Mae'n ansicr a ellir cynnal y trefniadau llywodraethu gwell yn ystod cyfnod o newid pellach | 24 |
| Atodiadau | |
| Methodoleg | 26 |

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

**1.** Ym mis Medi 2013, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol ei fwriad i gynnal arolygiad arbennig o drefniadau llywodraethu corfforaethol Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (y Cyngor), i ddilyn ymlaen o ganfyddiadau'r Archwilydd Penodedig a gyhoeddodd Adroddiad er Budd y Cyhoedd[1] ym mis Mawrth 2013. Tynnodd yr adroddiad hwn sylw at fethiannau yn y trefniadau llywodraethu a diffygion yn y prosesau a fabwysiadwyd gan y Cyngor i bennu cyflogau prif swyddogion. Hefyd, dymunai'r Archwilydd Cyffredinol fwrw golwg dilynol dros y materion llywodraethu ehangach a gafodd sylw yn ei Adroddiad Gwella Blynyddol[2], a gyhoeddwyd ar 10 Medi 2013.

**2.** Yn yr Adroddiad er Budd y Cyhoedd, daeth yr Archwilydd Penodedig i'r casgliad bod y Cyngor wedi 'gweithredu'n anghyfreithlon mewn perthynas â'r broses hon ar gyfer pennu cyflogau', a gwnaeth bum argymhelliad. Mae'r Cyngor yn cynnal ei ymchwiliad disgyblu ei hun o ganlyniad i'r adroddiad, ond mae hwn wedi'i ohirio dros dro tra cynhelir ymchwiliad gan heddlu Avon a Gwlad yr Haf.

**3.** Mae'r Adroddiad Gwella Blynyddol yn dweud: 'Ers dod i'r casgliad ym mis Medi 2012 bod y Cyngor yn debygol o gydymffurfio â'r gofyniad i wneud trefniadau i sicrhau gwelliannau parhaus yn ystod 2012-13 cyn belled â'i fod yn cyflymu'r gwaith o gyflwyno gwelliannau, rydym wedi canfod diffygion sylweddol yn ei drefniadau llywodraethu'. Daeth yr Adroddiad Gwella Blynyddol i'r casgliad hefyd fod: 'cynnydd y Cyngor yn erbyn argymhellion rheoleiddwyr... yn gymysg ac yn araf yn aml, ac er bod y Cyngor wedi derbyn bod angen cryfhau'r trefniadau atebolrwydd i reoli a darparu'r canfyddiadau o waith archwilio ac arolygu, nid yw wedi rhoi trefniadau ar waith.'

**4.** Yng ngoleuni canfyddiadau'r Archwilydd Penodedig a'r materion llywodraethu ehangach y tynnwyd sylw atynt yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol, canolbwyntiai'r arolygiad llywodraethu corfforaethol arbennig hwn ar drefniadau llywodraethu a gwneud penderfyniadau'r Cyngor, ac asesodd y cynnydd a wnaeth yn mynd i'r afael ag argymhellion Adroddiad er Budd y Cyhoedd yr Archwilydd Penodedig. Roedd ein harolygiad yn ceisio ateb y cwestiwn:

**'A yw trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd yr awdurdod yn cefnogi proses gadarn, dryloyw ac effeithiol o wneud penderfyniadau?'**

Mae disgrifiad o fethodoleg ein harolygiad i'w weld yn Atodiad 1.

---

[1] Archwiliad o Gyfrifon 2012/13 Adroddiad er Budd y Cyhoedd
www.wao.gov.uk/assets/Local_Reports_Welsh/144A2013_CaerphillyCBC_Audit_of_Accounts_PIR_Welsh.pdf

[2] Adroddiad Gwella Blynyddol Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
www.wao.gov.uk/assets/welshdocuments/399A2013_Caerphilly_AIR_Welsh.pdf

5. Daethom i'r casgliad cyffredinol fod **cyfuniad o nifer o wendidau wedi arwain yn anochel at fethiannau llywodraethu yn y Cyngor ac er ei fod yn gwneud cynnydd calonogol ar wella ei drefniadau llywodraethu, mae'n rhy fuan i gasglu a yw'r gwelliannau hyn yn gynaliadwy.**
6. Er bod y Cyngor wedi rhoi cynllun gweithredu ar waith i wella ei drefniadau llywodraethu yn dilyn yr Adroddiad er Budd y Cyhoedd, mae angen cyflawni'r cynllun yn llawn a chryfhau ymhellach rai swyddogaethau llywodraethu allweddol megis rheoli risg ac archwilio mewnol. Hefyd, rhaid i'r Cyngor sicrhau bod y trefniadau mwy cadarn y mae'n eu rhoi ar waith yn cael eu cynnal wrth symud ymlaen i gyfnod pellach o bwysau ariannol cynyddol ac agenda o newid mawr.
7. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

## Arweiniodd cyflymdra newid a chyfuniad o nifer o wendidau yn anochel at fethiannau llywodraethu

8. Newidiodd yr esiampl a ddangosir ar frig y sefydliad gyda phenodiad Prif Weithredwr newydd ym mis Medi 2010. Dechreuodd y Cyngor ganolbwyntio mwy ar weithredu gyda mwy o archwaeth risg a phwysau i gyflymu gwaith. Cafwyd pwysau cynyddol i godi proffil ardal Caerffili a hyrwyddo cyflawniadau'r Cyngor. Cafodd y newidiadau a gyflwynwyd gan y Prif Weithredwr newydd effaith ar gapasiti'r Uwch Dîm Rheoli.
9. Ni chafodd trefniadau llywodraethu allweddol eu hadolygu na'u newid i adlewyrchu'r newid yn yr esiampl a ddangosir ar frig y sefydliad a'r cynnydd yng nghyflymdra gweithredu. Ni roddwyd ystyriaeth i wrthdaro buddiannau posibl sy'n gynhenid yn y strwythurau newydd ac nid oedd rolau swyddogion statudol allweddol yn cael digon o broffil na dylanwad.
10. Gwnaeth y Cyngor nifer o benderfyniadau nad oeddynt yn dilyn gweithdrefnau llywodraethu priodol. Hefyd, roedd gwendidau yn y broses o baratoi achosion busnes i gefnogi penderfyniadau ac o ran tryloywder ac ehangder yr adroddiadau a gâi eu paratoi i gefnogi penderfyniadau.
11. Roedd gwendidau'n bresennol yn swyddogaethau herio mewnol y Cyngor drwy gydol y cyfnod hwn. Yn benodol, roedd ei drefniadau rheoli risg yn wan, ni châi'r gwasanaeth Archwilio Mewnol ei ddefnyddio'n effeithiol, nid oedd y trefniadau craffu yn ddigon effeithiol ac roedd gwendidau yn y trefniadau rheoli perfformiad. Cynyddai hyn y risg na fyddai modd atal na chanfod methiannau llywodraethu.
12. Mae peth ansicrwydd yn parhau ymhlith swyddogion ynglŷn â phryd i ymgynghori ag aelodau a phryd y caiff swyddogion wneud penderfyniadau. Mae cyfansoddiad y Cyngor yn parhau'n aneglur ynglŷn â phrosesau gwneud penderfyniadau. Er bod hyfforddiant ar y gweill ar ysgrifennu adroddiadau, nid yw'r Cyngor eto wedi ymgorffori newid diwylliannol sy'n sicrhau bod tryloywder, ehangder a chydbwysedd adroddiadau yn cael eu cynnal dros amser.

## Mae'r Cyngor bellach yn gwella ei drefniadau llywodraethu

**13.** Mae'n amlwg fod y Cyngor yn cydnabod ac yn croesawu'r angen i newid a gwella ei drefniadau llywodraethu. Mae yna benderfyniad cryf ymhlith aelodau a swyddogion i sicrhau bod trefniadau llywodraethu yn gweithio'n iawn ac i adfer hygrededd y Cyngor. Mae'r Cyngor wedi sefydlu Bwrdd Rhaglen Gwella Llywodraethu (y Bwrdd) ac mae wedi cyflawni'r rhan fwyaf o'r camau gweithredu a nodwyd ganddo ar gyfer gwella llywodraethu. Fodd bynnag, mae angen gwelliant pellach ar rai swyddogaethau llywodraethu.

**14.** Ni chafodd prosesau rheoli risg eu sefydlu'n llwyddiannus ar draws y Cyngor. Nid yw'r gweithdrefnau chwythu'r chwiban yn gyfredol nac yn adlewyrchu'r newidiadau deddfwriaethol diweddaraf. Ni wneir defnydd effeithiol o brosesau archwilio mewnol i ddarparu sicrwydd ynglŷn â'r prif risgiau sy'n wynebu'r Cyngor. Yn ogystal, mae camau gweithredu a nodwyd ar gyfer gwella'i swyddogaethau Adnoddau Dynol a rheoli perfformiad eto i'w cyflawni.

**15.** Ar y cyfan, mae'r aelodau'n ymddiried yn y swyddogion i wneud gwaith y Cyngor ac yn parchu eu gwybodaeth a'u proffesiynoldeb. Er bod aelodau'n teimlo y gallant herio'r swyddogion, cymysg yw'r farn ynglŷn ag effeithiolrwydd pwyllgorau craffu'r Cyngor. Mae'r Cyngor yn parhau i sylwi ar y ffordd y mae craffu'n gweithio mewn awdurdodau lleol eraill, ac i ddysgu gwersi o hynny. Mae'r aelodau'n dod yn fwy heriol a hyderus er nad yw hyn yn digwydd yn gyson eto ym mhob un o'r pwyllgorau.

## Mae'n ansicr a ellir cynnal y trefniadau llywodraethu gwell yn ystod cyfnod o newid pellach

**16.** Mae penodi cyn Brif Weithredwr yn Brif Weithredwr Dros Dro wedi darparu sicrwydd i aelodau, staff a rhanddeiliaid eraill fod modd adfer y sefydlogrwydd a brofwyd gan y Cyngor am flynyddoedd lawer cyn hynny. Gwnaed newidiadau sydd wedi cryfhau'r Tîm Rheoli Corfforaethol a rolau swyddogion statudol. Gweithredwyd dull diwygiedig o ymdrin ag adroddiadau ac argymhellion gan reoleiddwyr allanol ac mae'r Arweinydd a'r Prif Weithredwr Dros Dro wedi canolbwyntio ar yr angen i gyfathrebu â staff a'r cyhoedd.

**17.** Cafwyd ffocws iach yn y Cyngor ar barhau i ddarparu gwasanaethau a delio â gwaith fel arfer. Fodd bynnag, mae newidiadau yn y dyfodol yn anochel ar ôl i ymchwiliad yr heddlu gael ei gwblhau. Rhaid i'r Cyngor sicrhau bod y gwelliannau llywodraethu a wnaed eisoes neu sydd wedi'u cynllunio yn cael eu cyflawni'n llawn ac yn ddigon cadarn i fod yn gynaliadwy ar gyfer y dyfodol.

## Y ffordd ymlaen

**18.** Gwelsom fod penderfyniad cryf ymhlith aelodau a swyddogion i sicrhau bod y trefniadau llywodraethu yn gweithio'n iawn ac i adfer hygrededd y Cyngor. Mewn ymateb i'r Adroddiad er Budd y Cyhoedd, mae'r Cyngor yn gwella ei drefniadau llywodraethu a gwneud penderfyniadau. Mae'r Cyngor wedi datblygu cynllun gweithredu, nid yn unig i fynd i'r afael ag argymhellion yr Adroddiad er Budd y Cyhoedd, ond hefyd i adolygu a chryfhau agweddau eraill ar lywodraethu yn cynnwys craffu, adnoddau dynol, rheoli perfformiad a rheoli risg. Mae'n gadarnhaol fod y Cyngor wedi manteisio ar y cyfle i wneud hyn.

**19.** Wrth ymateb i ganfyddiadau'r adroddiad hwn, rhaid i'r Cyngor sicrhau ei fod yn parhau i gyflawni'r gwelliannau llywodraethu sydd wedi'u cychwyn ac yn manteisio ar y cyfle i ddefnyddio'r un egni i wella agweddau eraill ar ei wasanaethau corfforaethol. Dylai'r ffordd y mae'r Cyngor yn mynd i'r afael â'r her o bennu a chyflawni cynllun ariannol cynaliadwy ei alluogi i arddangos tryloywder ac atebolrwydd, h.y. fframwaith llywodraethu cadarn sy'n gweithredu'n effeithiol. Mae gan yr holl aelodau a staff rôl yn y gwaith o gyflawni hyn a chyfrifoldeb personol i wneud hynny.

## Datganiad gan yr Archwilydd Cyffredinol

**20.** Mae'r adroddiad hwn yn nodi canlyniadau fy arolygiad arbennig o'r Cyngor o dan adran 21 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur). Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i mi grybwyll unrhyw fater lle credaf, o ganlyniad i'r arolygiad, bod y Cyngor yn methu â chydymffurfio â gofynion Rhan 1 o'r Mesur (gwella llywodraeth leol). Er bod yr adroddiad hwn yn nodi meysydd ar gyfer gwella, nid wyf o'r farn fod y materion hyn yn cynrychioli methiant i gydymffurfio â gofynion Rhan 1 o'r Mesur.

## Argymhellion

**21.** Er mwyn helpu'r Cyngor i wneud y gwelliant gofynnol, rydym wedi nodi rhai argymhellion yn y tabl isod. Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor baratoi datganiad ar unrhyw gam gweithredu y mae'n bwriadu ei wneud o ganlyniad i'r adroddiad hwn, a'i amserlen arfaethedig ar gyfer cyflawni'r gwaith. Rhaid paratoi'r datganiad cyn pen 30 diwrnod i gael yr adroddiad hwn.

**22.** Rydym yn argymell y dylai'r Cyngor:

| | |
|---|---|
| A1 | Egluro'n benodol mewn fformat hawdd ei ddeall beth yw swyddogaethau llywodraethu a gwneud penderfyniadau: y Cabinet; y Prif Weithredwr; y Tîm Rheoli Corfforaethol; y cyfarwyddwyr corfforaethol; y pwyllgorau craffu; a'r Pwyllgor Archwilio. |
| A2 | Sicrhau bod cofnodion priodol yn cael eu cadw o bob penderfyniad a wneir, a gan bwy, er mwyn darparu sicrwydd pellach fod y broses gwneud penderfyniadau yn cael ei chyflawni'n briodol ac yn dryloyw. |
| A3 | Parhau i gyflawni cynllun gweithredu'r Bwrdd Rhaglen Gwella Llywodraethu er mwyn gwella'r trefniadau llywodraethu ar gyfer y dyfodol. |
| A4 | Cryfhau ei brosesau rheoli risg ymhellach er mwyn sefydlu gwaith rheoli risg ar draws y Cyngor. Yn benodol, dylid:<br>• sicrhau bod y gofrestr risgiau corfforaethol yn cael ei hadolygu'n fwy aml gan y Tîm Rheoli Corfforaethol;<br>• cynllunio camau gweithredu penodol ar gyfer y risgiau allweddol a nodwyd;<br>• mwy o drosolwg ar y modd y cedwir cofrestri risgiau cyfarwyddiaethau, a mwy o gysondeb yn y trefniadau hynny;<br>• egluro rôl a chylch gwaith y Grŵp Rheoli Risg;<br>• gwella hyfforddiant i aelodau'r Pwyllgor Archwilio. |
| A5 | Egluro swyddogaethau a chyfrifoldebau o dan y gweithdrefnau chwythu'r chwiban a sicrhau bod y polisi newydd wedi'i ddiweddaru i adlewyrchu newidiadau deddfwriaethol diweddar. |
| A6 | Ailasesu ei ddisgwyliadau o'r gwasanaeth Archwilio Mewnol a gosod rhaglen ar waith er mwyn i'w wasanaeth Archwilio Mewnol fynd i'r afael â chanfyddiadau'r arolygiad hwn. |
| A7 | Sicrhau bod y camau gweithredu a nodwyd ar gyfer gwella'r swyddogaeth Adnoddau Dynol a chynllunio'r gweithlu yn cael eu cyflawni. |
| A8 | Pwysleisio pwysigrwydd dilyn gweithdrefnau caffael priodol a sicrhau bod dangosyddion perfformiad allweddol wedi'u pennu ar gyfer y swyddogaeth gaffael. |

# Adroddiad manwl

## Arweiniodd cyflymdra newid a chyfuniad o nifer o wendidau yn anochel at fethiannau llywodraethu

### Newidiodd yr esiampl a ddangosir ar frig y sefydliad gyda phenodiad y Prif Weithredwr newydd ym mis Medi 2010

**23.** Rhwng ad-drefnu llywodraeth leol ym 1996 a mis Medi 2010, roedd gan y Cyngor hanes o uwch reoli sefydlog gyda dim ond dau brif weithredwr yn y swydd dros y cyfnod hwn. Er bod arweinyddiaeth wleidyddol y Cyngor wedi newid ym mhob etholiad, yn gyffredinol nid yw'r newidiadau yn y weinyddiaeth wleidyddol wedi effeithio ar naws a diwylliant y sefydliad.

**24.** Ym mis Medi 2010, penodwyd Cyfarwyddwr yr Amgylchedd ar y pryd yn Brif Weithredwr. Dôi'r ddau brif weithredwr blaenorol o gefndir o weithio mewn gwasanaethau corfforaethol ac roedd eu ffocws ar welliant pwyllog, fesul cam gydag archwaeth risg gofalus.

**25.** Newidiodd yr esiampl a ddangosir ar frig y sefydliad gyda phenodiad y Prif Weithredwr newydd i ganolbwyntio mwy ar weithredu gyda mwy o archwaeth risg a chynnydd yng nghyflymdra gweithredu. Cafwyd newid yn y weledigaeth i hyrwyddo'r ardal ac enw da'r Cyngor. Er enghraifft, bu'r Cyngor yn llwyddiannus yn ei gynnig i wahodd cam o'r Tour of Britain i'r ardal a chynhaliodd ddigwyddiad Proms in the Park ar gyfer y BBC. Gwnaed y newidiadau hyn mewn amgylchedd ariannol mwyfwy heriol a datblygiad newidiadau demograffig yr oedd gofyn mynd i'r afael â hwy.

**26.** Cyflawnodd y Prif Weithredwr nifer o newidiadau yn y Cyngor a effeithiodd ar gapasiti'r Uwch Dîm Rheoli, yn cynnwys:

- Ffocws cryf ar ysgwyddo rôl arweiniol mewn perthynas â threfniadau cydweithredol. O ystyried cyflymdra newid yn y Cyngor, roedd hyn yn gosod pwysau ychwanegol ar gapasiti'r lefel uwch.
- Ailstrwythuro trefniadau rheoli, yn dilyn penderfyniad y Cyngor, a gyfyngodd yn sylweddol ar nifer aelodau'r Uwch Dîm Rheoli a gostwng nifer aelodau'r Tîm Rheoli Corfforaethol o bump i bedwar. Yn y strwythur rheoli newydd, roedd gan unigolion swyddogaethau a chyfrifoldebau newydd a lleihawyd y capasiti.

**27.** Roedd gan y Prif Weithredwr arddull arwain wahanol i'w ragflaenwyr. Arweiniodd y newid yn yr arddull at y canlynol:

- Roedd rhai swyddogion yn ystyried bod yr esiampl a ddangoswyd ar y brig yn fwy di-ildio.
- Câi cyfarfodydd y Tîm Rheoli Corfforaethol eu cynnal mewn modd gwahanol. Roedd llai o bwyslais ar fyfyrio ac ar fod yn fforwm ar gyfer cyd-gytuno. Roedd llai o ddeialog fewnol ac ymgynghori/cydweithredu o fewn y Tîm Rheoli Corfforaethol, a arweiniai at lai o ffocws corfforaethol a mwy o ffocws ar atebolrwydd unigolion.

- Gwelwyd tueddiad i fod yn anffurfiol ac ysfa i gwblhau'r agenda'n gyflym yng nghyfarfodydd y Tîm Rheoli Corfforaethol. Neilltuwyd llai o amser ar gyfer ymgynghori ac ystyried.

**28.** Aethpwyd i'r afael â nifer o heriau'n effeithiol o dan y Prif Weithredwr, yn cynnwys camau i leihau absenoldeb salwch, gweithredu'r cyflog byw a rhesymoli'r ystâd ar gyfer cyd-leoli'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn Nhŷ Penallta.

## Ni chafodd trefniadau llywodraethu allweddol eu hadolygu na'u newid i adlewyrchu'r newid yn yr esiampl a ddangosir ar y brig a'r cynnydd yng nghyflymdra gweithredu

**29.** Daeth penodi Prif Weithredwr newydd yn 2010 ag arddull arwain wahanol yn ei sgîl ac awydd i symud pethau yn eu blaen yn gyflymach. Ni chafodd y strwythurau, y prosesau a'r trefniadau llywodraethu eu hadolygu na'u newid i adlewyrchu'r newid cyflymdra y dymunai'r Prif Weithredwr ei weld. Er enghraifft, ni chafodd y newid yn archwaeth risg y Cyngor ei fynegi'n ffurfiol na'i gofnodi. Gadawai hyn y Cyngor yn agored i risg.

**30.** Roedd nifer o brosesau wedi bod ar waith ers amser hir heb gael eu newid na'u hadolygu fawr ddim. Er enghraifft, ni chafodd y rheolau sefydlog eu hadolygu'n ffurfiol ers nifer o flynyddoedd. Golygai hyn, ynghyd â newid o ran cyflymdra, strwythur rheoli a chapasiti, fod mwyfwy o risg na fyddai'r prosesau'n gallu cefnogi'r ffyrdd newydd o weithio. Ymddengys mai canlyniad hyn oedd bod y prosesau'n cael eu dilyn yn llai effeithiol yn sgîl yr awydd i gael pethau wedi'u gwneud yn gyflymach.

## Ni roddwyd ystyriaeth i wrthdaro buddiannau posibl

**31.** Parhaodd y Prif Weithredwr i fod yn gyfrifol am Gyfarwyddiaeth yr Amgylchedd. Ni roddwyd ystyriaeth ffurfiol i'r gwrthdaro posibl yn sgîl cyfuno rôl Cyfarwyddwr yr Amgylchedd a rôl y Prif Weithredwr. Roedd risg o ddryswch mewn perthynas â'r maes gwasanaeth a mwy o berygl y byddai'r trefniant yn achosi anawsterau o fewn y Tîm Rheoli Corfforaethol, gan effeithio'n negyddol ar atebolrwydd. Er enghraifft, y Prif Weithredwr yn hytrach na chyfarwyddwr oedd yn gwneud y penderfyniadau yn Uwch Dîm Rheoli Cyfarwyddiaeth yr Amgylchedd. O ganlyniad, nid oedd penderfyniadau a wnaed mewn perthynas â Chyfarwyddiaeth yr Amgylchedd yn ddarostyngedig i her y Prif Weithredwr.

**32.** Yn dilyn penodi'r Prif Weithredwr, tyfodd baich cyfrifoldebau Cyfarwyddiaeth yr Amgylchedd hefyd, wrth iddo fabwysiadu cyfrifoldeb dros drafnidiaeth ac arlwyo i gychwyn. Yn nes ymlaen, trosglwyddwyd gwasanaethau hamdden hefyd o'r adran Addysg i Adran yr Amgylchedd. Ychwanegodd hyn at lwyth gwaith y Prif Weithredwr. Er ein bod yn deall fod yr aelodau wedi cymeradwyo hyn, mae'n enghraifft o argymhelliad gan swyddog na fyddai wedi cael ei herio gan Brif Weithredwr annibynnol oddi ar Gyfarwyddiaeth yr Amgylchedd.

## Nid oedd rolau statudol y Swyddog Adran 151[3] a'r Swyddog Monitro yn cael digon o broffil na dylanwad o fewn y strwythur rheoli newydd

**33.** Roedd gan y Tîm Rheoli Corfforaethol newydd lai o brofiad o redeg gwasanaethau corfforaethol. Nid oedd gan unrhyw aelod o'r Tîm Rheoli Corfforaethol brofiad blaenorol o gyflawni rolau statudol Swyddog Adran 151 na Swyddog Monitro, nac o fod yn Bennaeth Gwasanaeth Cyflogedig, yn wahanol i'r sefyllfa o dan y Prif Weithredwr blaenorol a oedd yn gyn Swyddog Adran 151.

**34.** O ganlyniad, roedd llai o brofiad gan y Tîm Rheoli Corfforaethol o'r rolau statudol hyn. Nid oedd y Swyddog Adran 151 na'r Swyddog Monitro yn aelodau o'r Tîm Rheoli Corfforaethol ac nid oeddynt yn bresennol drwy gydol cyfarfodydd y Tîm Rheoli Corfforaethol, felly nid oeddynt yno ar gyfer pob un o'r trafodaethau a gafwyd. Roedd hyn, ynghyd â diffyg profiad blaenorol o'r rolau hyn ymhlith aelodau presennol y Tîm Rheoli Corfforaethol, yn cynyddu'r risg na fyddai ymgynghori'n digwydd â swyddogion statudol ar yr adeg iawn neu yn y ffordd fwyaf effeithiol.

**35.** Roedd y newid yn yr esiampl a ddangoswyd ar y brig a ffocws ar gyflymu'r broses gwneud penderfyniadau yn cyfyngu ar yr amser oedd gan Swyddogion Statudol y tu allan i'r Tîm Rheoli Corfforaethol i adolygu rhai adroddiadau allweddol, yn enwedig o ystyried y cyfrifoldebau cynyddol a roddwyd iddynt yn rhan o'r broses o ailstrwythuro'r trefniadau rheoli. Er enghraifft, ni ymgynghorwyd yn ffurfiol ac yn amserol â'r Swyddog Adran 151 mewn perthynas â'r bwriad i integreiddio Gwasanaethau Cymdeithasol â Chyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent ac ni ymgynghorwyd yn ffurfiol â'r Swyddog Adran 151 na'r Swyddog Monitro mewn perthynas â phenderfyniad i brynu lwfansau prif swyddogion, er i'r Swyddog Monitro roi cyngor yn anffurfiol.

**36.** Golygai'r cyfuniad o ffactorau a amlinellwyd uchod fod y modd y câi'r rolau statudol eu cyflawni yn llai effeithiol.

---

[3] Mae Adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol wneud trefniadau i'w materion ariannol gael eu gweinyddu'n briodol ac yn mynnu y dylid enwebu un swyddog i gymryd cyfrifoldeb dros weinyddu'r materion hynny. Fel arfer, y Swyddog Adran 151 yw trysorydd yr awdurdod ac mae'n rhaid i'r unigolyn dan sylw fod yn gyfrifydd cymwys sy'n perthyn i un o'r cyrff cydnabyddedig o gyfrifwyr siartredig. Mae gan y Swyddog Adran 151 nifer o ddyletswyddau statudol, yn cynnwys y ddyletswydd i roi gwybod am unrhyw weithgaredd ariannol anghyfreithlon sy'n ymwneud â'r awdurdod (yn y gorffennol, yn y presennol neu arfaethedig) neu fethiant i osod neu gadw at gyllideb gytbwys. Hefyd, mae gan y Swyddog Adran 151 nifer o bwerau statudol i'w alluogi i gyflawni'r rôl, megis yr hawl i fynnu bod yr awdurdod lleol yn gwneud darpariaeth ariannol ddigonol i dalu costau archwiliad mewnol.

## Cafwyd methiannau llywodraethu mewn perthynas â phenderfyniadau penodol

**37.** Ym mis Mawrth 2013, cyhoeddodd yr Archwilydd Penodedig Adroddiad er Budd y Cyhoedd a dynnai sylw at fethiannau llywodraethu'n ymwneud â phenderfyniadau ynglŷn â chyflog uwch swyddogion ym mis Medi 2012. Roedd y materion a arweiniodd at farn yr Archwilydd Penodedig fod y taliadau'n ymwneud â chyflog uwch swyddogion yn anghyfreithlon yn cynnwys y canlynol:

- diffyg hysbysebu'r cyfarfod ym mis Medi 2012;
- unigolion â buddiant ariannol yn cymryd rhan yn y broses gwneud penderfyniadau;
- methiant i gyflwyno ac ystyried ystod o opsiynau.

**38.** Hefyd, roedd yr Archwilydd Penodedig yn ystyried na chafwyd llywodraethu da o ran y gweithdrefnau a ddilynwyd gogyfer â phwyllgor newydd, o ran eglurder yr adroddiad a gyflwynwyd i'r pwyllgor nac o ran sicrhau cofnod digonol o gyfarfod y pwyllgor.

**39.** Datgelodd Cyfrifon Blynyddol y Cyngor ar gyfer 2012-2013 daliadau anghyfreithlon pellach i brif swyddogion mewn perthynas â phrynu lwfansau defnyddwyr ceir hanfodol a lwfansau gwyliau blynyddol. Cyhoeddodd yr Archwilydd Penodedig Adroddiad er Budd y Cyhoedd arall ar 19 Rhagfyr 2013 mewn perthynas â'r taliadau hyn.

**40.** Roedd tri mater yn arwain yr Archwilydd Penodedig i ddod i'r casgliad fod y taliadau i brynu lwfansau defnyddwyr ceir hanfodol a lwfansau gwyliau blynyddol yn anghyfreithlon, sef:

- ni wnaed y penderfyniad i wneud y taliadau gan unigolyn neu unigolion â'r pwerau dirprwyedig priodol;
- cymerodd unigolion â buddiant ariannol ran yn y broses gwneud penderfyniadau;
- methiant i gyhoeddi'r penderfyniad yn unol â chyfansoddiad y Cyngor.

**41.** Mynegodd yr Archwilydd Penodedig bryder hefyd ynglŷn â: diffyg dogfennau'n cofnodi penderfyniad ffurfiol; y broses anffurfiol a ddilynwyd i gael cyngor gan swyddog statudol; pa mor ddigonol oedd yr adroddiad yr ymddengys i benderfyniad gael ei seilio arno; a'r newid diweddar a wnaed i'r penderfyniad a wnaeth y Cyngor yn agored i risg pellach.

**42.** Adolygwyd nifer o benderfyniadau penodol pellach gennym yn rhan o'r arolygiad arbennig hwn. At ei gilydd, cafodd prosesau a gweithdrefnau priodol eu dilyn mewn perthynas â phenderfyniadau penodol a adolygwyd gennym. Er hynny, cafwyd rhai eithriadau, fel a ganlyn:

- Nodwyd un penderfyniad ôl-weithredol gennym mewn perthynas â darparu cyllid ychwanegol i gynllun adfywio. Penderfyniad ôl-weithredol oedd hwn, gan fod y gwariant eisoes wedi'i neilltuo.
- Ni ddilynwyd gweithdrefnau cywir mewn perthynas â chaffael contract gwyliadwriaeth a dau gontract pellach gyda darparwyr gofal cymdeithasol.

- Gwelsom rai mân enghreifftiau o wyro oddi wrth y prosesau a gofnodwyd ar gyfer caffael o ganlyniad i gamddehongli geiriad y rheolau sefydlog o ran pwy sy'n cael cynnig gyntaf a sawl cynnig y dylid eu gwahodd.

**43.** Hefyd, gwelsom wendidau yn y modd y caiff achosion busnes eu paratoi. Yn achos y bwriad i integreiddio Gwasanaethau Cymdeithasol â Chyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, cafodd adnoddau sylweddol eu hymrwymo i ffrydiau gwaith a luniwyd ar gyfer hwyluso integreiddiad ond heb achos busnes llawn a diwydrwydd dyladwy o'r cychwyn. Yn ogystal, cymeradwyodd y Cabinet gynlluniau i drefnu gweithlu dros dro ar y cyd yn 2012 heb achos busnes. Cyflwynwyd achos busnes ar gyfer ei gymeradwyo'n derfynol ym mis Gorffennaf 2013, ond i bob pwrpas roedd y gwasanaeth wedi'i integreiddio erbyn hynny.

**44.** Mae rhai aelodau wedi mynegi pryderon nad oeddynt bob amser yn cael digon o wybodaeth i ddeall goblygiadau'r penderfyniadau a wnaent (yn enwedig y goblygiadau ariannol) a'r opsiynau amgen a oedd ar gael. Cefnogwyd y farn hon gan swyddogion a dywedodd cyfran sylweddol o'r ymatebwyr i'n harolygon nad oeddynt yn cael digon o wybodaeth i gefnogi'r broses gwneud penderfyniadau.

**45.** Cafodd nifer o adroddiadau cyfrinachol eu datgelu'n answyddogol i'r cyfryngau yn y gorffennol ac mae'n bosibl fod ofn datgeliadau pellach wedi tanseilio tryloywder y drefn ar gyfer cyflwyno adroddiadau. Ceir canfyddiad ymhlith y rhai y cynhaliwyd cyfweliadau â hwy fod adroddiadau wedi'u cyflwyno'n hanesyddol nad oeddynt yn cyfeirio'n benodol at yr holl opsiynau a goblygiadau. Golygodd hyn fod adroddiadau'n llai cytbwys nag y gallent fod.

**46.** Mynegwyd pryderon wrthym hefyd mewn perthynas â diffyg tryloywder y broses gwneud penderfyniadau mewn cyfarfodydd 'polisi' h.y. grŵp polisi'r Tîm Rheoli Corfforaethol a grŵp polisi'r Cabinet. Mae'r grwpiau hyn yn caniatáu mwy o ryngweithio rhwng gwleidyddion a swyddogion er mwyn llywio polisi arfaethedig. Yn hanesyddol, ni chafodd y camau gweithredu a gytunwyd yn y cyfarfodydd hyn eu cofnodi sy'n golygu bod perygl na chaiff y sail resymegol dros benderfyniadau dilynol, a wneir yn y Cabinet ffurfiol, yn cael ei chofnodi, gan olygu fod y sail hon yn fwy agored fel y cyfryw i gael ei herio neu ei chwestiynu. Ceir peth ansicrwydd ymhlith swyddogion ynglŷn â phryd i ymgynghori ag aelodau a phryd y caiff swyddogion wneud penderfyniadau.

**47.** Yn dilyn sefydlu'r Bwrdd Rhaglen Gwella Llywodraethu, gwelwyd awydd newydd i fod yn fwy ymgynghorol a thryloyw, a rhodiodd y Prif Weithredwr Dros Dro bwyslais pellach ar hyn. Un canlyniad anochel yw bod y broses gwneud penderfyniadau wedi arafu. Dylid gofalu bod y broses yn cael cyfle addasu er mwyn gwneud yn siŵr fod proses gymesur ac ymarferol o wneud penderfyniadau yn cael ei datblygu.

**48.** Rydym yn cydnabod bod cyfansoddiad y Cyngor yn cael ei adolygu, ond nodwn fod diffyg eglurder ynghylch prosesau gwneud penderfyniadau yn y cyfansoddiad, sy'n anodd ei oresgyn. Mae gwaith yn cael ei wneud hefyd gan y Bwrdd Rhaglen Gwella Llywodraethu i wneud y broses ar gyfer pennu pwy ddylid ymgynghori â hwy, a phryd yn ystod y broses y dylid gwneud hynny, yn fwy tryloyw.

# Mae'r Cyngor bellach yn gwella ei drefniadau llywodraethu

## Mae'r Bwrdd Rhaglen Gwella Llywodraethu yn llwyddo i lywio cynllun gweithredu'r Cyngor i wella ei drefniadau llywodraethu

**49.** Mae'r Cyngor yn cydnabod yn eglur ac yn croesawu'r angen i newid a gwella ei drefniadau llywodraethu ac effeithiolrwydd y dull o'u cyflawni. Ceir penderfyniad cryf ymhlith aelodau a swyddogion i sicrhau bod y trefniadau llywodraethu yn gweithio'n iawn ac i adfer hygrededd y Cyngor.

**50.** Yn dilyn cyhoeddi'r Adroddiad er Budd y Cyhoedd ym mis Mawrth 2013, cafwyd ffocws newydd ar drefniadau llywodraethu. Mae'r Cyngor wedi datblygu cynllun gweithredu i fynd i'r afael ag argymhellion r Adroddiad er Budd y Cyhoedd ac i adolygu a chryfhau agweddau eraill ar lywodraethu yn cynnwys craffu, adnoddau dynol, rheoli perfformiad a rheoli risg.

**51.** Sefydlwyd Bwrdd Rhaglen Gwella Llywodraethu (y Bwrdd) a'i gylch gwaith yw cyflawni cynllun gweithredu'r Cyngor. Caiff ei gadeirio gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol Gweithredol ac mae'n cynnwys uwch swyddogion eraill. Mae'r aelod o'r Cabinet sydd â chyfrifoldeb dros lywodraethu yn mynychu ei gyfarfodydd pythefnosol gan ddarparu cysylltiad uniongyrchol â'r Cabinet. Rhoddwyd trefniadau rheoli project cadarn ar waith a rhoddwyd cyfrifoldeb amdanynt i uwch swyddog prosiect. Mae'r Bwrdd yn cyflwyno adroddiadau'n bythefnosol i'r Tîm Rheoli Corfforaethol ac yn fisol i'r Cabinet. Hefyd, darparwyd diweddariadau ar gynnydd i'r Pwyllgor Archwilio a'u rhaeadru drwy'r sefydliad drwy gyfrwng cyfarfodydd gweithredol a chyfarfodydd rheolwyr, a chyfathrebiadau gan yr Arweinydd a'r Prif Weithredwr Dros Dro.

**52.** Hefyd, cafodd cyfarwyddwr profiadol o'r bwrdd iechyd lleol ei secondio i'r Cyngor yn rhan amser er mwyn darparu arbenigedd a chapasiti ychwanegol ar lefel uwch. Mae hyn wedi bod yn gam cadarnhaol, sy'n helpu'r Cyngor i ddysgu o brofiad sefydliadau eraill.

**53.** Mae'r Bwrdd wedi cyflawni'r rhan fwyaf o'i gamau gweithredu. Er enghraifft:

- Gweithredir rhaglen hyfforddi i swyddogion ac aelodau ddatblygu eu gallu ym maes llywodraethu fel rhan o'r gwaith dilynol ar yr Adroddiad er Budd y Cyhoedd.
- Mae'r holl aelodau wedi cwblhau hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad.
- Mae'r Cod Ymddygiad wedi cael ei ddosbarthu'n bersonol i bob gweithiwr gan eu rheolwyr ac roedd gofyn iddynt lofnodi i gydnabod eu bod wedi'i gael, er bod rhai llofnodion yn dal heb ddod i law.
- Mae'r Cyngor yn adolygu ei brosesau ar gyfer sicrhau cytundeb swyddogion i'w hymrwymiadau o dan y cod. Cynhyrchwyd cynllun hyfforddi ar god y swyddogion ac mae'r hyfforddiant wedi cychwyn.

- Sefydlwyd gweithgor cyfansoddiad i sicrhau bod Cyfansoddiad newydd y Cyngor yn adlewyrchu ei ofynion yn briodol ac y bydd yn adlewyrchu cyhoeddiad Cyfansoddiad Fframwaith cenedlaethol yn y dyfodol. Adolygwyd y system ar gyfer rhoddion a lletygarwch a bellach, caiff y gofrestr ei hadrodd i'r Pwyllgor Archwilio.
- Mae canllawiau ar y broses ar gyfer rheoli gwrthdaro buddiannau wedi'u cynnwys yn y Llawlyfr Gweithdrefnau Democrataidd.

**54.** Mae'r Bwrdd wedi adolygu amserlenni ei gynllun gweithredu gan ohirio rhai camau nes yn gynnar yn 2014. Y rheswm pennaf am hyn yw'r angen i'r Cyngor ganolbwyntio ar ddiweddaru ei gynllun ariannol tymor canolig o ganlyniad i'r angen i ddod o hyd i £28 miliwn o arbedion dros y tair blynedd nesaf. Mae trefniadau effeithiol ar waith drwy'r Bwrdd a'i drefniadau cyflwyno adroddiadau i sicrhau bod y momentwm ar gyfer cyflawni'r cynllun gweithredu yn cael ei gynnal yn 2014.

**55.** Gwelsom ymrwymiad eglur ar y lefel uwch i ysgogi newid drwy ein gwaith yn arsylwi ar y Bwrdd. Roedd trafodaethau rhwng swyddogion yn agored ac yn heriol, ac wedi'u cynnal mewn modd priodol.

**56.** Ers cyhoeddi'r Adroddiad er Budd y Cyhoedd, y consensws ymhlith y rhai y cynhaliwyd cyfweliadau â hwy oedd bod mwy o barodrwydd wedi bod i gyflwyno'r opsiynau llai dymunol mewn adroddiadau. Mae'r Bwrdd Rhaglen Gwella Llywodraethu wedi edrych ar brosesau ysgrifennu adroddiadau a darperir hyfforddiant i swyddogion o ganlyniad i hynny. Mae'r Cyngor yn cydnabod y bydd camau gweithredu fel hyn yn helpu i wella ansawdd adroddiadau, ond bydd newid diwylliant y sefydliad i'w gwneud yn bosibl cyflwyno opsiynau llai dymunol mewn adroddiadau yn cael mwy o effaith.

## Mae'r Cyngor wedi dechrau mynd i'r afael â'i drefniadau rheoli risg ond er bod strategaeth newydd wedi'i lansio, mae rhai gwendidau'n parhau

**57.** Tan yn ddiweddar, mae'r trefniadau rheoli risg sydd ar waith yn y Cyngor wedi bod yn wan. Yn benodol, ni chafwyd unrhyw strategaeth risg; cyfyngedig oedd y gweithdrefnau ar gyfer adolygu'r gofrestr risgiau corfforaethol; roedd bylchau yn y broses o gofnodi risgiau ar y gofrestr risgiau a chyfathrebu risgiau; ac roedd angen mwy o waith i gysoni'r risgiau a nodwyd o ganlyniad i wahanol brosesau, er enghraifft rhwng y Datganiad Llywodraethu Blynyddol a'r gofrestr risgiau corfforaethol.

58. Mae'r Cyngor wedi cydnabod ei fod angen adolygu ac adnewyddu ei ddull o reoli risg ac mae wedi gwneud cynnydd mawr tuag at gyflawni hyn drwy lansio strategaeth newydd. Er bod llawer yn y strategaeth sy'n gadarnhaol, dylid rhoi sylw pellach i'r meysydd canlynol:

- Mae'r Tîm Rheoli Corfforaethol yn bwriadu edrych ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol bob chwarter. Mae arfer da yn awgrymu nad yw hyn yn ddigon aml.
- Dylid cryfhau'r gweithdrefnau ar gyfer cynllunio camau gweithredu. Heb gynllunio camau penodol, ni fydd digon o atebolrwydd nac eglurder ynglŷn â phwy sy'n gwneud beth ac erbyn pryd.
- Dylid gwella'r dull o gadw cofrestri risgiau'r gyfarwyddiaeth. Ar hyn o bryd, ychydig o'r cofrestri hyn a gedwir ac ni cheir trosolwg ohonynt. Mae'r cofrestri risgiau cyfarwyddiaethau sy'n bodoli yn anghyson o ran eu harddull a'u fformat.
- Mae angen mwy o ysgogiad o'r canol i sicrhau bod prosesau rheoli risg wedi'u sefydlu'n llwyddiannus ym mhob rhan o'r Cyngor.
- Mae angen egluro rôl, aelodaeth a chylch gwaith y Grŵp Rheoli Risg.
- Er bod hyfforddiant sylfaenol wedi'i gynnal ar gyfer aelodau'r Pwyllgor Archwilio, nid oedd nifer dda ohonynt yn bresennol ac mae sesiwn arall yn cael ei threfnu. Dylid darparu hyfforddiant pellach ar lefel uwch i aelodau'r Pwyllgor Archwilio.

## Nid yw diweddariad y Cyngor o'i bolisi chwythu'r chwiban yn mynd i'r afael â'r newidiadau deddfwriaethol diweddaraf

59. Ychydig iawn o weithgarwch chwythu'r chwiban a gafwyd yn y Cyngor. Mae'n bwysig bod y Cyngor yn ystyried yr holl honiadau a wneir gan y sawl sy'n chwythu'r chwiban.

60. Nodwyd un enghraifft o chwythu'r chwiban ynglŷn â honiadau o dwyll a llygredd. Fodd bynnag, ni chafodd y camau gweithredu a argymhellwyd mewn ymateb i'r honiadau hyn eu trafod â'r gwasanaeth Archwilio Mewnol sydd ag arbenigedd penodol yn y maes hwn.

61. Mae polisi chwythu'r chwiban y Cyngor ar gael ar y Porth Adnoddau Dynol ar fewnrwyd y Cyngor ond ychydig a wnaed i godi ymwybyddiaeth o bresenoldeb y polisi. Byddai staff heb fodd o ddefnyddio cyfrifiadur yn ei chael yn anodd dod o hyd i'r polisi. Ni cheir unrhyw bosteri na chyfathrebiadau ynglŷn â'r polisi.

62. Mae'r Cyngor wedi cynnal ymgynghoriad ar ei God Ymddygiad yn cynnwys ei bolisi chwythu'r chwiban ac mae wedi drafftio polisi newydd. Nid yw'n ymddangos bod y polisi newydd yn mynd i'r afael â'r newidiadau yn y gofynion o ran chwythu'r chwiban a gyflwynwyd ym mis Mehefin 2013, yn benodol ynglŷn â'r newid o ddatgeliadau a wneir yn ddidwyll i ddatgeliadau er budd y cyhoedd. Ceir nifer o gyfeiriadau eraill sydd angen eu diweddaru, yn cynnwys datgelu Personau Rhagnodedig y tu allan i'r Cyngor.

63. Y Pennaeth Adnoddau Dynol sydd â chyfrifoldeb dros oruchwylio'r polisi chwythu'r chwiban a datgeliadau. Yn y dyfodol, cyfrifoldeb y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol fydd hyn. Ond mae angen mwy o eglurder ynglŷn â chyfrifoldebau yn y maes hwn i osgoi unrhyw amwysedd ac i sicrhau cysondeb wrth ymdrin â datgeliadau.

## Nid yw prosesau Archwilio Mewnol yn cael eu defnyddio'n effeithiol i ddarparu sicrwydd ynglŷn â'r prif risgiau sy'n wynebu'r Cyngor

64. Caiff gwasanaeth Archwilio Mewnol y Cyngor ei arwain gan reolwr profiadol sydd wedi ymrwymo'n eglur i'r gwasanaeth. Er hynny, mae proffil y gwasanaeth yn y Cyngor yn eithaf isel a'i ffocws wedi'i gyfyngu i feysydd ariannol heb fawr ddim ystyriaeth i risgiau gweithredol a strategol ehangach.

65. Mae diffyg cyfeiriad a phroffil isel Archwilio Mewnol yn y Cyngor yn cael effaith negyddol ar y ffordd y mae'r gwasanaeth yn datblygu ei bobl, ei brosesau a'i systemau. Fodd bynnag, mae awydd gwirioneddol i newid hyn o fewn a thu allan i'r adran ac mae cynnydd yn cael ei wneud, yn fwyaf penodol mewn perthynas â'r ymgysylltiad â Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio.

66. Gwelodd ein harolygiad fod cyfloed ar gael i wella yn enwedig mewn perthynas â'r mewnwelediad a'r sicrwydd y mae'r gwasanaeth yn ei ddarparu ac ansawdd y gwaith a wneir. Nododd ein hadolygiad y meysydd canlynol lle byddai gwelliannau i'r gwasanaeth Archwilio Mewnol yn cryfhau prosesau llywodraethu:

- **Strategaeth a gweledigaeth** – nid yw'r gwasanaeth Archwilio Mewnol wedi mynd ati'n effeithiol i fynegi gweledigaeth neu strategaeth gyffredinol. Ceir Siarter Archwilio Mewnol, er bod hwn wedi'i seilio ar dempled y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) rai blynyddoedd yn ôl ac nid yw'n cael ei hyrwyddo'n eang. Mae yna ddealltwriaeth gyffredinol o rôl Archwilio Mewnol er bod hon i'w gweld wedi esblygu dros amser yn hytrach na'i bod yn weledigaeth a fynegwyd yn eglur a'i llywio gan y Rheolwr Archwilio Mewnol. Mae 'cynnig gwerth' Archwilio Mewnol i'r Cyngor yn gyfyngedig i feysydd ariannol heb fawr ddim ystyriaeth i risgiau gweithredol a strategol ehangach.
- **Ymgysylltiad â'r Pwyllgor Archwilio** – roedd lefel a natur yr ymgysylltiad rhwng trefniadau Archwilio Mewnol a'r Pwyllgor Archwilio yn wan o'r blaen a gellid cryfhau gallu'r pwyllgor i gyflawni ei rôl lywodraethu drwy ryngweithio mwy â'r gwasanaeth Archwilio Mewnol a pheth mewnbwn i'r broses o ddiffinio gweledigaeth a strategaeth y swyddogaeth.
- **Cynllunio** – mae'r Swyddog Archwilio Mewnol yn gwahodd sylwadau gan benaethiaid gwasanaethau wrth baratoi'r cynllun archwilio; fodd bynnag, ychydig o ymateb a geir ac ymddengys bod y broses yn fwy o ddefod na phroses ymgysylltu ystyrlon. Ymgysylltiad cyfyngedig a geir â'r cyfarwyddwyr neu'r Prif Weithredwr. Caiff y cynllun archwilio ei gymell gan yr adnoddau sydd ar gael yn hytrach nag angen i archwilio. Ni cheir cylch gorchwyl wedi'i gytuno i gefnogi'r gwaith o gynllunio archwiliadau unigol bob amser.

- **Ffocws ar sail risg –** mae rhanddeiliaid i'w gweld yn hyderus bod y gwasanaeth Archwilio Mewnol yn deall y Cyngor, a bod ganddo'r gallu i ychwanegu gwerth at y sefydliad, ond awgryma'r adborth nad yw rhanddeiliaid wedi'u hargyhoeddi fod gwaith yn canolbwyntio ar feysydd risg uchel. Mae angen mwy o waith o fewn a thu allan i'r gwasanaeth Archwilio Mewnol ar fapio risg strategol i'r rhaglen Archwilio Mewnol a dulliau eraill o ddarparu sicrwydd.
- **Cyflwyno adroddiadau a chyfathrebu –** mae cyflwyno adroddiadau'n digwydd ar sail eithriad ac weithiau drwy e-bost. Nid yw'r Rheolwr Archwilio Mewnol yn llofnodi ei fod wedi derbyn pob adroddiad. Ceir proses ar gyfer dilyn gwaith ar argymhellion er bod hon weithiau'n gallu arwain at ddilyn gwaith ar adroddiadau a gyflwynwyd ers blynyddoedd. Mae cyfathrebu rhwng y gwasanaeth Archwilio Mewnol a'i randdeiliaid yn amrywio braidd.
- **Sicrhau ansawdd a rheoli perfformiad –** nid yw'r gwasanaeth yn gweithredu systemau sicrhau ansawdd cyson. Ni welwyd tystiolaeth o unrhyw adolygiad o ansawdd ar y ffeiliau a adolygwyd gennym. Hefyd, mae yna rywfaint o anghysondeb yn y ffordd y caiff adroddiadau eu cyhoeddi gan nad yw'r Rheolwr Archwilio Mewnol yn gweld pob adroddiad cyn ei gyhoeddi, yn cynnwys rhai sy'n cael eu dosbarthu drwy gyfrwng e-bost. Mae angen gwella rheoli perfformiad o fewn y swyddogaeth Archwilio Mewnol. Dylid cyflwyno dulliau ystyrlon o fesur perfformiad a dylid cyflwyno adroddiadau yn eu cylch i'r Pwyllgor Archwilio yn rheolaidd.
- **Defnydd o dechnoleg –** ar hyn o bryd defnydd cyfyngedig a wneir o dechnoleg. Gellid ystyried hyn yn wendid sylweddol yn y gwasanaeth a rhwystr i welliant sylfaenol. Nid oes system archwilio integredig ar waith ar gyfer cynllunio, cyflawni, cofnodi a chyflwyno adroddiadau archwilio. Gallai hyn arwain at aneffeithlonrwydd.

**67.** Mae diffyg dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth ymhlith y Tîm Rheoli Corfforaethol ynglŷn â'r rôl y gallai Archwilio Mewnol ei chwarae yn darparu sicrwydd ynglŷn â risgiau. Nid yw'r gwasanaeth yn cael ei ddefnyddio i ychwanegu gwerth ac ysgogi gwelliant. Pe bai'r gwasanaeth Archwilio Mewnol wedi'i rymuso a'i herio i weithredu fel y gallai fod wedi gwneud, mae'n bosibl y byddai rhai o'r materion llywodraethu, megis ansawdd y trefniadau rheoli risg, wedi'u nodi'n gynt.

**68.** Mae Safonau Archwilio Mewnol newydd y Sector Cyhoeddus yn gymwys ers mis Ebrill 2013. Dylid defnyddio'r rhain, ynghyd â chanfyddiadau'r arolygiad hwn, i ysgogi'r newidiadau trawsnewidiol sydd eu hangen ar y gwasanaeth Archwilio Mewnol ac i helpu i godi ei broffil a gwella ei effeithiolrwydd.

## Mae'r Cyngor wedi bod yn araf yn rhoi camau ar waith i wella'r swyddogaeth Adnoddau Dynol a datblygu ei drefniadau cynllunio'r gweithlu

**69.** Er bod y swyddogaeth Adnoddau Dynol wedi bod yn gyfrifol am rai datblygiadau sy'n cael eu hystyried yn dda, er enghraifft y cynllun pasbort a'r broses adleoli, mae hefyd wedi ei chael yn anodd ymdopi â chyflymdra a chyflawniad mentrau strategol eraill.

**70.** Yn haf 2012, cyhoeddwyd ein hadroddiad ar yr arolwg o drefniadau adnoddau dynol yn seiliedig ar waith maes a wnaed yn 2011. Roedd yn cynnwys argymhellion a ganolbwyntiai ar rôl strategol y swyddogaeth adnoddau dynol. Ni weithredodd y Cyngor ar y pedwar argymhelliad hyd nes haf 2013, pan gyflwynwyd adroddiadau yn eu cylch o'r diwedd i'r Pwyllgor Craffu a'r Pwyllgor Archwilio.

**71.** Mae cynllun gweithredu i fynd i'r afael ag argymhellion yr adolygiad bellach ar waith. Mae cerdyn sgorio cytbwys o wybodaeth adnoddau dynol yn cael ei adolygu a strategaeth adnoddau dynol yn cael ei datblygu, yn unol â'r cynllun gweithredu a'r amserlen.

**72.** Edrychwyd ar brosesau recriwtio pobl i sampl o swyddi prif swyddogion. Cymysgedd o benodiadau allanol a mewnol oedd y rhain. Gwelsom fod prosesau'r Cyngor yn cael eu dilyn yn briodol ar gyfer yr elfennau yn ein sampl. Mae gan y Cyngor weithdrefn sefydledig ar gyfer gwerthuso swyddi prif swyddogion. Sefydliad allanol sy'n cynnal y gwerthusiad, gan sicrhau bod cryn dipyn o annibyniaeth yn perthyn i'r broses. Cafodd cyfrifoldebau rhai swyddi yn y Gyfarwyddiaeth Addysg eu newid, dros dro o bosibl, ac ni chawsant eu gwerthuso'n ffurfiol. Dylai'r Cyngor sicrhau bod y swyddi hyn yn cael eu gwerthuso.

**73.** Araf fu'r Cyngor yn datblygu trefniadau ar gyfer cynllunio 'r gweithlu ar draws y sefydliad. Cyflwynwyd papur i'r Tîm Rheoli Corfforaethol yn 2009 ond ni wnaed gwaith pellach arno. Nawr, mae'r Cyngor yn cynnal peilot cynllunio'r gweithlu mewn pedwar maes ac yn cydlynu'r trefniadau â'r gwaith o adolygu'r broses cynllunio gwelliannau i'r gwasanaeth sydd ar y gweill. Yng ngoleuni'r heriau ariannol presennol, rhaid i'r Cyngor wthio'r gwaith o wella ei drefniadau cynllunio'r gweithlu yn ei flaen.

## Mae'r Cyngor yn cydnabod bod gwendidau'n parhau yn ei drefniadau rheoli perfformiad

**74.** Mae gwella rheoli perfformiad yn rhan allweddol o gynllun gweithredu Gwella Llywodraethu'r Cyngor. Gwelodd yr Arolwg Aelwydydd diweddar a gynhaliwyd ym mis Mehefin 2013, fod 82 y cant o'r ymatebwyr yn fodlon â lefel gyffredinol y gwasanaeth y mae'r Cyngor yn ei ddarparu. Dengys hyn gynnydd ers yr arolwg diwethaf yn 2011, er bod y gyfradd ymateb yn is nag 20 y cant. Nododd Adroddiad Perfformiad Blynyddol y Cyngor ar gyfer 2012-13 fod 24 o'r 36 dangosydd strategol cenedlaethol y gellid eu cymharu yn erbyn perfformiad yn 2011-12, sef 67 y cant, yn dangos perfformiad gwell, fod dau ddangosydd wedi cynnal perfformiad gorau posibl o 100 y cant a bod 10 (28 y cant) o'r dangosyddion wedi dirywio o ran eu perfformiad. Mae hyn yn rhagori ar berfformiad 2011-12. Cyrhaeddodd y Cyngor 70 y cant o'r targedau a osododd ar gyfer 2012-13. Unwaith eto, mae hyn yn rhagori ar ei berfformiad yn 2011-12.

**75.** Mae systemau rheoli perfformiad y Cyngor wedi sefydlu'n dda ond ni chawsant eu hadolygu na'u newid yn sylweddol ers amser hir. Gyda'r pwysau ariannol cynyddol sydd arno, mae'r Cyngor bellach yn adolygu ei drefniadau i sicrhau eu bod yn dal yn briodol. Mae newidiadau'n cael eu hystyried, er enghraifft i'r broses o gynllunio gwasanaethau a'i drefniadau craffu. Mae hyn yn gwbl briodol.

**76.** Gwelodd ein grwpiau ffocws a'n harolygon fod y staff a'r aelodau ar y cyfan yn gyffyrddus â'r trefniadau presennol ond safbwyntiau cymysg a gafwyd ynglŷn ag effeithiolrwydd y pwyllgorau craffu ar berfformiad chwe-misol a'r cynlluniau gwella gwasanaethau.

**77.** Gwelodd ein harolwg o uwch swyddogion: fod 50 y cant o'r ymatebwyr yn teimlo bod gwerthuso perfformiad naill ai'n effeithiol neu'n effeithiol iawn; ond teimlai 36 y cant nad oedd yn effeithiol nac yn aneffeithiol; a chredai 13 y cant ei fod yn aneffeithiol neu'n aneffeithiol iawn. Teimlai 89 y cant o'r aelodau a arolygwyd fod y wybodaeth am berfformiad a ddarparwyd ar eu cyfer yn ddefnyddiol neu'n ddefnyddiol iawn. Fodd bynnag, roedd yr aelodau y cynhaliwyd cyfweliadau â hwy fel rhan o'r arolygiad yn gyffredinol o'r farn fod angen integreiddio monitro perfformiad yn well o fewn y gwaith craffu rheolaidd a'r Cabinet, yn hytrach na thrwy gyfarfodydd craffu perfformiad ar wahân.

**78.** Ymhellach, teimlir bod gormod o bwyslais ar gasglu data yn hytrach na dadansoddi data a bod angen rhoi mwy o ystyriaeth i wybodaeth ansoddol a gwerthuso perfformiad yn well er mwyn hybu gwelliant. Cefnogir hyn gan ein harchwiliad o amcanion gwella'r Cyngor a welodd fod mwyafrif y mesurau a fabwysiadwyd gan y Cyngor yn parhau i fod yn feintiol ac mai cyfyngedig yw'r enghreifftiau o fathau mwy ansoddol neu fwy eang o dystiolaeth yn cael eu defnyddio i bennu cynnydd.

## Mae yna rai gwendidau yn y modd y mae'r Cyngor yn defnyddio'i swyddogaeth gaffael

**79.** Dylai'r swyddogaeth gaffael weithredu fel galluogydd strategol o fewn y Cyngor i sicrhau gwerth am arian yr holl nwyddau a gwasanaethau a brynir. Mae gan y Cyngor dîm caffael aeddfed ar waith ac mae adroddiad drafft o adolygiad allanol diweddar yn tynnu sylw at ei gryfderau. Mae strategaeth gaffael y Cyngor yn canolbwyntio ar adfywio, cefnogi busnesau lleol a meithrin datblygiad economaidd.

**80.** Cyfyngwyd ar statws y swyddogaeth gaffael yn y Cyngor fel rhan o ailstrwythuro trefniadau rheoli yn 2010. Achosodd y lleihad dilynol ym mhroffil y swyddogaeth gaffael densiynau yn y sefydliad pan ddaeth sicrhau bod prosesau caffael yn cael eu dilyn mewn modd tryloyw yn rhan o'r swyddogaeth.

**81.** Ni ddilynwyd y gweithdrefnau cywir mewn perthynas â chaffael contract gwyliadwriaeth a dau gontract pellach â darparwyr gofal cymdeithasol. Gwelsom rai mân enghreifftiau o wyro oddi wrth y prosesau a gofnodwyd ar gyfer caffael o ganlyniad i gamddehongli geiriad rheolau sefydlog o ran pwy sy'n cael cynnig gyntaf a sawl cynnig y dylid eu gwahodd.

**82.** Hefyd, mae adleoli rhai o'r Tîm Caffael yn yr Adran Dai wedi cyfrannu at wneud y rôl yn fwy niwlog a gallai danseilio gallu'r swyddogaeth gaffael i weithredu fel galluogydd strategol.

**83.** Dylai'r Cyngor ail-bwysleisio pwysigrwydd dilyn gweithdrefnau caffael priodol a dylai sicrhau bod dangosyddion perfformiad allweddol perthnasol yn cael eu pennu ar gyfer y gwasanaeth sy'n pwysleisio'i rôl fel galluogydd strategol.

## Ar y cyfan, mae'r berthynas rhwng swyddogion ac aelodau'n dda er nad yw gwaith craffu'n gyson effeithiol

**84.** Yn gyffredinol, mae'r aelodau yn ymddiried yn y swyddogion i gyflawni gwaith y Cyngor ac yn parchu eu gwybodaeth a'u proffesiynoldeb. Ni cheir unrhyw dystiolaeth yn yr arolwg fod aelodau na swyddogion yn teimlo fod y berthynas rhyngddynt yn aneffeithiol.

**85.** I raddau helaeth iawn, ystyriai'r aelodau bod swyddogion yn hawdd mynd atynt ac yn derbyn eu sylwadau ac os oedd angen gwybodaeth neu gyngor ar yr aelodau, teimlent fod y swyddogion yn barod ac yn abl i'w ddarparu. Roedd pawb y cynhaliwyd cyfweliad â hwy yn gadarnhaol ynglŷn â'r berthynas gan ddefnyddio disgrifiadau fel: 'hawdd mynd atynt, parch y naill at y llall, cyfaill beirniadol ac adeiladol'.

**86.** Awgryma'r arolwg fod yr aelodau yn teimlo'u bod yn gallu herio swyddogion; fodd bynnag, cymysg oedd barn aelodau a swyddogion ynglŷn ag effeithiolrwydd pwyllgorau craffu'r Cyngor. Teimlai cadeiryddion y pwyllgorau hyn y gellid gwella gwaith craffu mewn rhai meysydd. Cafwyd amryw o resymau am hyn, er enghraifft:

- a oedd yr adroddiadau cywir yn cael eu cyflwyno i bwyllgorau craffu;
- dealltwriaeth yr aelodau o'u rolau, a'u hyder ynddynt;
- barn fod gwaith craffu chwe-misol o berfformiad y cyngor yn rhy wan a heb fod yn rhan integredig o'r broses graffu, a'i fod yn llesteirio cynnydd tuag at ddull hunanwerthusol o weithredu.

**87.** Cymerodd y Cyngor ran yn astudiaeth wella Swyddfa Archwilio Cymru ar graffu yn 2012-13 a oedd yn cynnwys golwg ar adolygu gan gymheiriaid a hunanwerthuso. Yn dilyn yr astudiaeth, mae'r Cyngor wedi datblygu cynllun gweithredu gwella gwaith craffu, sy'n cael ei weld fel rhan ganolog o'r rhaglen wella llywodraethu. Cafodd nifer o'r camau gweithredu eu cyflawni'n ddiweddar. Cyflwynwyd newidiadau gweithdrefnol i allu gwahaniaethu'n well rhwng aelodau a swyddogion mewn pwyllgorau a sefydlwyd Grŵp Arweiniad ar Graffu. Mae'n ddyddiau cynnar ar lawer o'r newidiadau hyn ac nid ydynt wedi'u rhoi ar waith yn gyson ac yn gadarn eto gan bob un o'r pwyllgorau. Mae newidiadau a gwelliannau pellach i'w gwneud yn ystod 2014.

**88.** Mae'r Cyngor yn parhau i arsylwi ar y ffordd y mae craffu'n gweithio mewn awdurdodau lleol eraill, ac i ddysgu o hynny. Yr hyn gwelsom ni yn y pwyllgorau craffu a'r Pwyllgor Archwilio yw bod aelodau'n dod yn fwy heriol ac yn magu hyder er ei bod yn amlwg fod llawer i'w wneud o hyd er mwyn sicrhau mwy o gysondeb ym mherfformiad pob un o'r pwyllgorau.

**89.** Mae'r Bwrdd Gwella Llywodraethu wedi nodi'r angen am wella adroddiadau gan swyddogion i'r pwyllgorau, drwy grynhoi prif bwyntiau'r adroddiad yn fwy eglur er enghraifft, a darparu ystod o opsiynau a gwybodaeth i'r aelodau i'w galluogi i wneud penderfyniadau mwy deallus. Mae yn y broses o gomisiynu hyfforddiant i fynd i'r afael â hyn.

**90.** Mae'r Pwyllgor Archwilio wedi dod yn fwy effeithiol yn ei rôl ac mae'n amlwg yn darparu mwy o her i'r adroddiadau a gynhyrchir ac i'r rheolwyr. Mae cyfarfodydd rhag-blaen ag archwilwyr a'r Swyddog Adran 151 a chadeirydd y pwyllgor yn gymorth i ddeall prif bwyntiau papurau a gyflwynir. Dylai fod swyddogaeth gryfach i'r pwyllgor o ran sicrhau bod y rhaglen Archwilio Mewnol yn mynd i'r afael â'r risgiau sy'n wynebu'r Cyngor fel ffurf ar sicrwydd fod risgiau'n cael eu lliniaru'n ddigonol.

**91.** Mae gan y Cyngor broses ar waith ar gyfer adolygu ei Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol ond gellid ffurfioli agweddau a'u hymwreiddio ymhellach i ychwanegu gwerth a darparu mwy o sicrwydd i'r Cyngor a'r cyhoedd. Nid yw'r Cyngor wedi gwerthuso'i broses ar gyfer paratoi Datganiad Llywodraethu Blynyddol ond mae'n rhoi camau ar waith i wneud hynny.

## Mae'n ansicr a ellir cynnal y trefniadau llywodraethu gwell yn ystod cyfnod o newid pellach

**92.** Cafodd penodiad cyn Brif Weithredwr yn Brif Weithredwr Dros Dro ym mis Gorffennaf 2013 groeso gan y sefydliad, ac arweiniodd at deimlad o ryddhad. Mae'r Prif Weithredwr Dros Dro yn ennyn parch cyffredinol ac yn rhoi sicrwydd i'r aelodau, y staff a rhanddeiliaid eraill fod modd adfer y sefydlogrwydd a brofwyd am flynyddoedd lawer o'r blaen.

**93.** Nid oes cyfrifoldebau gweithredol gan y Prif Weithredwr Dros Dro dros adran wasanaeth, ac mae hyn wedi cael gwared ar y ffynhonnell hon o densiwn posibl. Hefyd, roedd yn Swyddog Adran 151 ac yn Bennaeth Gwasanaethau Cyflogedig o'r blaen, felly mae ganddo brofiad o gyflawni rôl Swyddog Statudol. Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol yw Swyddog Adran 151 y Cyngor ac mae'n aelod o'r Tîm Rheoli Corfforaethol.

**94.** Yn ogystal, ailgynlluniwyd rôl y Swyddog Monitro i gael gwared ar unrhyw gyfrifoldebau dros feysydd gwasanaeth iddo allu canolbwyntio ar lywodraethu a'r rôl statudol.

**95.** Adolygwyd rôl a ffocws y Tîm Rheoli Corfforaethol i hyrwyddo cydweithredu ac ymgynghori wrth iddo gyflawni ei swyddogaeth. Mae cyfweliadau'n awgrymu bod hyder ac ymddiriedaeth yn cael eu hadfer o dan y Prif Weithredwr Dros Dro a throi yn ôl at ddull mwy ymgynghorol o weithredu.

**96.** Rydym wedi nodi arwyddion eraill fod trefniadau llywodraethu'n gwella. Yn dilyn trafodaeth yn y Bwrdd Gwella Llywodraethu, awgrymwyd dull diwygiedig o ymdrin ag adroddiadau ac argymhellion gan reoleiddwyr allanol, a dylai hyn sicrhau cysondeb, cwtogi'r amser ar gyfer cwblhau adroddiad a gwneud y broses yn fwy adeiladol. Hefyd, adolygwyd y systemau i aelodau allu monitro cynnydd ar gyflawni camau i fynd i'r afael ag argymhellion. Yn flaenorol, nid oedd cysondeb yn null y Cyngor o gyflwyno adroddiadau a monitro adroddiadau rheoleiddwyr. Bellach, caiff pob un o adroddiadau Swyddfa Archwilio Cymru eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio ac mae'r Bwrdd wedi awgrymu y dylid dilyn y drefn hon ar gyfer pob adroddiad gan reoleiddwyr, yn cynnwys Estyn ac AGGCC.

**97.** Mae'r Arweinydd a'r Prif Weithredwr Dros Dro wedi canolbwyntio ar yr angen i gyfathrebu â'r staff a'r cyhoedd. Maent wedi cynnal cyfres o gyflwyniadau teithiol ar gyfer staff i egluro sut y maent yn mynd i'r afael â phryderon, ac fel modd o hybu morâl. Rhoddwyd system 'Gofynnwch i'r Prif Weithredwr' ar waith gan y Prif Weithredwr Dros Dro er mwyn i staff allu gael atebion ganddo i'w cwestiynau. Mae'r rhain yn gamau priodol ac angenrheidiol i adfer ymddiriedaeth.

**98.** Cafwyd ffocws iach o fewn y sefydliad ar barhau i ddarparu gwasanaethau a delio â gwaith fel arfer. Bydd heriau datblygu strategaeth ariannol yn galw am wneud penderfyniadau sylfaenol ac anodd. Ond mae'n cynnig cyfle i wneud hynny mewn modd tryloyw ac atebol. Er enghraifft, fel rhan o'i broses ar gyfer gosod y gyllideb, mae'r Cyngor yn gofyn i'r cyhoedd am eu safbwyntiau ynglŷn â sut y dylid gwario'r gyllideb er mwyn blaenoriaethu gwasanaethau.

**99.** Fodd bynnag, tra bydd ymchwiliad yr heddlu a'r posibilrwydd o achos cyfreithiol yn dal i fodoli, bydd rhywfaint o ansicrwydd yn parhau, ac ni ddaw i ben nes y bydd y materion hyn wedi'u datrys. Bydd angen i'r Cyngor ystyried yn ei bryd pa effaith fydd dod â phenodiad y Prif Weithredwr Dros Dro i ben yn ei chael ar sefydlogrwydd y broses o adfer ymddiriedaeth a hyder.

**100.** Trwy grwpiau ffocws, daeth adborth i law a awgrymai fod y cynnydd yn y pwyslais ar broses a llywodraethu yn mynd i ddigwydd ar draul cyfeiriad strategol, a bod y Cyngor bellach yn dioddef o ddiffyg egni. Mae'n gwbl briodol fod y Cyngor wedi canolbwyntio ar fynd i'r afael â'r materion llywodraethu a byddem yn disgwyl y bydd y Cyngor, wedi i'r gwelliannau hyn gael eu gwneud, yn dechrau unioni'r fantol unwaith eto.

# Atodiad 1

## Methodoleg

Mae’r atodiad hwn yn nodi cwmpas ein Harolygiad Arbennig a’r dulliau a ddefnyddiwyd gennym i wneud ein gwaith. Rydym wedi ceisio ateb y cwestiwn:

**A yw trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd yr awdurdod yn cefnogi proses gadarn, dryloyw ac effeithiol o wneud penderfyniadau?**

Canolbwyntiodd ein gwaith ar y prif faterion canlynol:

- A geir swyddogaethau a chyfrifoldebau eglur i alluogi’r awdurdod i lywodraethu’n dda gydag atebolrwydd cadarn?
- A yw’r aelodau etholedig a’r swyddogion yn arddangos gwerthoedd ac ymddygiad priodol?
- A oes trefniadau digonol ar waith i gynorthwyo aelodau a swyddogion i fod yn effeithiol yn eu rôl?
- A yw’r broses gwneud penderfyniadau ar draws yr awdurdod yn gadarn ac yn effeithiol?
- A yw’r prosesau herio, craffu ac adolygu yn sicrhau yr eir ati i geisio ac ystyried ystod o safbwyntiau deallus i gynorthwyo’r broses gwneud penderfyniadau a gwella?
- A yw’r ymgysylltiad sydd gan yr awdurdod â’i randdeiliaid yn cefnogi atebolrwydd go iawn?
- A yw’r awdurdod yn sicrhau bod llywodraethu ac atebolrwydd effeithiol yn cael eu cynnal pan fo’r awdurdod yn darparu gwasanaethau drwy gwmnïau, ymddiriedolaethau neu endidau allanol eraill?

Wrth gyflawni’r Arolygiad Arbennig, cyflawnwyd gweithgareddau amrywiol, yn cynnwys gwaith desg a gwaith maes ar y safle yn y Cyngor. Roedd hyn yn cynnwys adolygu dogfennau, cyfweliadau strwythuredig a grwpiau ffocws, arsylwi ar gyfarfodydd yr aelodau, profion penodol ar wybodaeth ddiweddar ac adolygiad lefel uchel o effeithiolrwydd trefniadau archwilio mewnol a rheoli risg a’r defnydd o ddata arolwg.

### Adolygiad o’r dogfennau

Cynhaliwyd adolygiad o’r dogfennau sy’n berthnasol i lywodraethu a rheoli corfforaethol, yn cynnwys cynlluniau a strategaethau, agendâu a chofnodion cyfarfodydd, adolygiadau ac adroddiadau mewnol, dogfennau arweiniol a chyfathrebiadau mewnol, gohebiaeth ac adroddiadau allanol. Hefyd, rhoddwyd ystyriaeth i waith ac adroddiadau blaenorol Swyddfa Archwilio Cymru.

## Cyfarfodydd a chyfweliadau

Yn ystod ein gwaith maes, cynhaliwyd cyfweliadau lled-strwythuredig â'r canlynol:

- Aelodau (aelodau penodol o'r Cabinet gyda chyfrifoldebau portffolio perthnasol)
- Aelodau o'r Tîm Rheoli Corfforaethol
- Penaethiaid gwasanaethau ac uwch swyddogion eraill

## Grwpiau ffocws

Cynhaliwyd grwpiau ffocws gan ddefnyddio cyfres led-strwythuredig o gwestiynau a ganolbwyntiai ar wahanol gydrannau fframwaith llywodraethu effeithiol.

Cynhaliwyd grwpiau ffocws â'r canlynol:

- Aelodau'r Cabinet
- Cadeiryddion y Pwyllgorau Craffu
- Arweinyddion timau (neu gyfatebol)

## Profi gwybodaeth ddiweddar

Er mwyn profi'r trefniadau llywodraethu sy'n ymwneud â phenderfyniadau, adolygwyd y prosesau sydd ynghlwm wrth y broses gwneud penderfyniadau ar sail sampl yn y meysydd canlynol:

- penderfyniadau caffael;
- penderfyniadau recriwtio a'r broses ar gyfer diweddaru gwerthusiadau o swyddi prif swyddogion;
- penderfyniadau'n ymwneud â gwaharddiad dros dro'r Prif Weithredwr a'r Prif Weithredwr Gweithredol;
- penderfyniadau gweithredu allweddol.

## Arolwg

Er mwyn gwahodd cymaint o safbwyntiau â phosibl gan bobl a ddymunai gyfrannu at yr arolygiad, trefnwyd arolwg ar-lein ac anfonwyd dolen mewn e-byst at aelodau ac uwch swyddogion. Gallodd ymatebwyr aros yn ddienw os dymunent. Cafwyd 99 ymateb i gyd: 55 gan aelodau a 44 gan uwch swyddogion.

WALES AUDIT OFFICE

SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU


Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk